OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 1155 (Cy. 277)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, a wnaed yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn rhoi effaith i gynigion Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn"), a hynny wedi eu haddasu. Ym mis Chwefror 2016, cyflwynodd y Comisiwn adroddiad ar ei adolygiad o drefniadau cymunedol ar gyfer Dinas a Sir Caerdydd. Yn yr adroddiad, argymhellwyd newidiadau i nifer o ffiniau cymunedol presennol.

Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud newidiadau i nifer o ardaloedd cymunedol a rhai newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol. Mae newidiadau wedi eu gwneud i'r ffiniau rhwng cymunedau Cyncoed a Phentwyn, Llanisien a Chyncoed, Llanrhymni a Thredelerch, a Trowbridge a Thredelerch.

Mae'r Gorchymyn hwn hefyd yn creu'r cymunedau newydd a ganlyn: y Ddraenen o fewn cymuned bresennol Llanisien, Llanedern o fewn cymunedau presennol Pentwyn a Chyncoed, Pontcanna o fewn cymuned bresennol Glanyrafon, a Thremorfa o fewn cymuned bresennol y Sblot.

Mae newidiadau canlyniadol wedi eu gwneud i'r adrannau etholiadol o fewn cymunedau Cyncoed, Pentwyn, Llanisien, Llanrhymni, Tredelerch a Trowbridge.

Mae printiau o'r mapiau ffiniau A i I y mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi eu hadneuo a gellir edrych arnynt yn ystod oriau swyddfa arferol yn swyddfeydd Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, ac yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (yr Is-adran Democratiaeth Llywodraeth Leol).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 1155 (W. 277)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The City and County of Cardiff (Communities) Order 2016

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect, with modification, to proposals of the Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission"). The Commission reported in February 2016 on its review of community arrangements for the City and County of Cardiff. The report recommended changes to a number of existing community boundaries.

This Order makes changes to a number of community areas and some consequential changes to electoral divisions. Changes are made to the boundaries between the communities of Cyncoed and Pentwyn, Llanishen and Cyncoed, Llanrumney and Rumney, and Trowbridge and Rumney.

This Order also creates the following new communities: Thornhill within the existing community of Llanishen, Llanedeyrn within the existing communities of Pentwyn and Cyncoed, Pontcanna within the existing community of Riverside, and Tremorfa within the existing community of Splott.

Consequential changes are made to the electoral divisions within the communities of Cyncoed, Pentwyn, Llanishen, Llanrumney, Rumney and Trowbridge.

Prints of the boundary maps A to I to which this Order relates are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Cardiff City and County Council, and at the offices of the Welsh Government at Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Local Government Democracy Division).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 1155 (Cy. 277)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau) 2016

*Gwnaed* *28 Tachwedd 2016*

*Yn dod i rym yn unol ag erthygl 1(2) a (3)*

Mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru(**1**) wedi cyflwyno i Weinidogion Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**), adroddiad dyddiedig 22 Chwefror 2016 ar ei adolygiad o drefniadau cymunedol yn Ninas a Sir Caerdydd, a'i gynigion ar gyfer eu newid.

Mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i roi effaith i gynigion y Comisiwn wedi eu haddasu.

(**1**) Enw blaenorol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ("y Comisiwn") oedd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru. Sefydlwyd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru gan adran 53 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) ("Deddf 1972") ac Atodlen 8 iddi. Diddymwyd adran 53 ac Atodlen 8 gan adran 73(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (dccc 4) ("Deddf 2013") ac Atodlen 2 iddi. O dan Ddeddf 2013, parhaodd y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i fodoli ond fe'i hailenwyd yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (gweler adran 2). Gweler troednodyn (2) isod ar gyfer darpariaethau arbed yn Neddf 2013 sy'n gymwys i Ran 4 o Ddeddf 1972.

(**2**) 1972 p. 70. Diddymwyd adrannau 53 i 61 gan adran 73(2) o Ddeddf 2013 ac Atodlen 2 iddi ond, yn unol ag adran 74(1) a (2) o Ddeddf 2013, mae'n parhau mewn effaith at ddiben cwblhau adolygiadau a oedd yn cael eu cynnal pan ddaeth Rhan 3 o Ddeddf 2013 i rym ar 30 Medi 2013 ac at ddiben y cynigion a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru cyn yr adeg honno. Diwygiwyd adran 74(2) o Ddeddf 2013 gan adran 43 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2015 (dccc 6) er mwyn caniatáu i adolygiadau a gwblhawyd cyn 30 Medi 2013 gael eu gweithredu o dan Ddeddf 1972.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2016 No. 1155 (W. 277)

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## The City and County of Cardiff (Communities) Order 2016

*Made* *28 November 2016*

*Coming into force in accordance with article 1(2) and (3)*

The Local Democracy and Boundary Commission for Wales(**1**) has, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(**2**), submitted to the Welsh Ministers a report dated 22 February 2016 on its review of, and proposals for change in, the community arrangements in the City and County of Cardiff.

The Welsh Ministers have agreed to give effect to the Commission's proposals with modification.

(**1**) The Local Democracy and Boundary Commission for Wales ("the Commission") was previously called the Local Government Boundary Commission for Wales. The Local Government Boundary Commission for Wales was established by section 53 of and Schedule 8 to the Local Government Act 1972 (c. 70) ("the 1972 Act"). Section 53 and Schedule 8 were repealed by section 73(2) of and Schedule 2 to the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2013 (anaw 4) ("the 2013 Act"). Under the 2013 Act, the Local Government Boundary Commission for Wales continued in existence but was renamed the Local Democracy and Boundary Commission for Wales (see section 2). See footnote (2) below for savings provisions in the 2013 Act that apply to Part 4 of the 1972 Act.

(**2**) 1972 c. 70. Sections 53 to 61 have been repealed by section 73(2) of and Schedule 2 to the 2013 Act but, pursuant to section 74(1) and (2) of the 2013 Act, continue in effect for the purpose of completing reviews which were being conducted when Part 3 of the 2013 Act came into force on 30 September 2013 and for the purpose of proposals submitted to the Welsh Ministers before that time. Section 74(2) of the 2013 Act was amended by section 43 of the Local Government (Wales) Act 2015 (anaw 6) to allow reviews completed before 30 September 2013 to be implemented under the 1972 Act.

Mae mwy na chwe wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi eu breinio bellach ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau) 2016.

(2) At unrhyw ddiben a nodir yn rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2016.

(3) At bob diben arall, daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr yn 2017(**3**).

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "newydd" ("*new*"), mewn perthynas ag ardal llywodraeth leol, yw'r ardal honno fel y'i sefydlir gan y Gorchymyn hwn;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau i Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**4**);

mae unrhyw gyfeiriad at fap yn gyfeiriad at un o'r naw map a farciwyd "Map Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau) 2016", a adneuwyd yn unol â rheoliad 5 o'r Rheoliadau, a labelwyd yn "A" i "I" ac mae cyfeiriad at fap â llythyren yn gyfeiriad at fap sy'n dwyn y llythyren honno; a

pan ddangosir bod ffin ar fap yn rhedeg ar hyd ffordd, rheilffordd, troetffordd, cwrs dŵr neu nodwedd ddaearyddol debyg, mae i'w thrin fel un sy'n rhedeg ar hyd llinell ganol y nodwedd.

(**1**) Mae adran 58(2) o Ddeddf 1972 yn darparu na chaniateir gwneud gorchymyn sy'n rhoi effaith i unrhyw gynigion a wneir i Weinidogion Cymru gan y Comisiwn tan fod chwe wythnos wedi mynd heibio ers y diwrnod y cyflwynwyd y cynigion hynny i Weinidogion Cymru.

(**2**) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac maent bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Diwygiwyd Gorchymyn Etholiadau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2014 (O.S. 2014/3033 (Cy. 302)) gan Ddeddf 1972 drwy symud y diwrnod arferol ar gyfer ethol cynghorwyr un flwyddyn yn ôl o 2016 i 2017.

(**4**) O.S. 1976/246.

More than six weeks have elapsed since these proposals were submitted to the Welsh Ministers(**1**).

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and now vested in them so far as exercisable in relation to Wales(**2**).

**Title and commencement**

**1.**—(1) The title of this Order is the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016.

(2) For any purpose set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on 1 December 2016.

(3) For all other purposes, this Order comes into force on the ordinary day of election of councillors in 2017(**3**).

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"new" ("*newydd*"), in relation to a local government area, means that area as established by this Order;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976(**4**);

any reference to a map means one of the nine maps marked "Map of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016" deposited in accordance with regulation 5 of the Regulations, labelled "A" to "I" and a reference to a lettered map is a reference to the map that bears that letter; and

where a boundary is shown on a map as running along a road, railway line, footway, watercourse or similar geographical feature, it is to be treated as running along the centre line of the feature.

(**1**) Section 58(2) of the 1972 Act provides that an order giving effect to any proposals made to the Welsh Ministers by the Commission must not be made until the expiry of six weeks from the day on which those proposals were submitted to the Welsh Ministers.

(**2**) The powers of the Secretary of State were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and are now vested in the Welsh Ministers by virtue of section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c. 32).

(**3**) The Local Authority Elections (Wales) Order 2014 (S.I. 2014/3033 (W. 302)) amended the 1972 Act by moving the ordinary day of election of councillors by one year from 2016 to 2017.

(**4**) S.I. 1976/246.

**Newidiadau i ardaloedd llywodraeth leol**

**3.** Mae newidiadau wedi eu gwneud yn ardal llywodraeth leol Dinas a Sir Caerdydd yn unol â'r darpariaethau a ganlyn yn y Gorchymyn hwn.

**Cyncoed a Phentwyn - newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol**

**4.**—(1) Mae'r rhan o gymuned Cyncoed a ddangosir â chroeslinellau ar Fap A—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Pentwyn; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pentwyn.

(2) Mae'r rhan o gymuned Pentwyn a ddangosir â llinellau rhwyllog ar Fap A—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cyncoed; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cyncoed.

**Llanisien a Chyncoed - newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol**

**5.** Mae'r rhan o gymuned Llanisien a ddangosir â chroeslinellau ar Fap B—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cyncoed; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cyncoed.

**Llanisien - creu cymuned newydd y Ddraenen**

**6.** Mae cymuned newydd y Ddraenen wedi ei chreu ac—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir â chroeslinellau ar Fap C; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Llanisien.

**Llanrhymni a Thredelerch - newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol**

**7.** Mae'r rhan o gymuned Llanrhymni a ddangosir â chroeslinellau ar Fap D—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tredelerch; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tredelerch.

**Local government area changes**

**3.** Changes are made in the local government area of the City and County Council of Cardiff in accordance with the following provisions of this Order.

**Cyncoed and Pentwyn - change to community areas and consequential change to electoral divisions**

**4.**—(1) The part of the community of Cyncoed shown hatched on Map A—

(a) is transferred to the community of Pentwyn; and

(b) forms part of the electoral division of Pentwyn.

(2) The part of the community of Pentwyn shown cross-hatched on Map A—

(a) is transferred to the community of Cyncoed; and

(b) forms part of the electoral division of Cyncoed.

**Llanishen and Cyncoed - change to community areas and consequential change to electoral divisions**

**5.** The part of the community of Llanishen shown hatched on Map B—

(a) is transferred to the community of Cyncoed; and

(b) forms part of the electoral division of Cyncoed.

**Llanishen – creation of the new community of Thornhill**

**6.** The new community of Thornhill is created and—

(a) comprises the area shown hatched on Map C; and

(b) forms part of the electoral division of Llanishen.

**Llanrumney and Rumney - change to community areas and consequential change to electoral divisions**

**7.** The part of the community of Llanrumney shown hatched on Map D—

(a) is transferred to the community of Rumney; and

(b) forms part of the electoral division of Rumney.

**Pentwyn a Chyncoed - newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol**

**8.** Mae'r rhan o gymuned Pentwyn a ddangosir â chroeslinellau ar Fap E—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Cyncoed; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Cyncoed.

**Pentwyn a Chyncoed - creu cymuned newydd Llanedern**

**9.** Mae cymuned newydd Llanedern wedi ei chreu ac—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir â chroeslinellau ar Fap F; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Pentwyn.

**Glanyrafon - creu cymuned newydd Pontcanna**

**10.** Mae cymuned newydd Pontcanna wedi ei chreu ac—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir â chroeslinellau ar Fap G; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Glanyrafon.

**Y Sblot - creu cymuned newydd Tremorfa**

**11.** Mae cymuned newydd Tremorfa wedi ei chreu ac—

(a) yn cynnwys yr ardal a ddangosir â chroeslinellau ar Fap H; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol y Sblot.

**Trowbridge a Thredelerch - newid i ardaloedd cymunedol a newid canlyniadol i adrannau etholiadol**

**12.** Mae'r rhan o gymuned Trowbridge a ddangosir â chroeslinellau ar Fap I—

(a) wedi ei throsglwyddo i gymuned Tredelerch; a

(b) yn ffurfio rhan o adran etholiadol Tredelerch.

**Pentwyn and Cyncoed - change to community areas and consequential change to electoral divisions**

**8.** The part of the community of Pentwyn shown hatched on Map E—

(a) is transferred to the community of Cyncoed; and

(b) forms part of the electoral division of Cyncoed.

**Pentwyn and Cyncoed - creation of the new community of Llanedeyrn**

**9.** The new community of Llanedeyrn is created and—

(a) comprises the area shown hatched on Map F; and

(b) forms part of the electoral division of Pentwyn.

**Riverside – creation of the new community of Pontcanna**

**10.** The new community of Pontcanna is created and—

(a) comprises the area shown hatched on Map G; and

(b) forms part of the electoral division of Riverside.

**Splott – creation of the new community of Tremorfa**

**11.** The new community of Tremorfa is created and—

(a) comprises the area shown hatched on Map H; and

(b) forms part of the electoral division of Splott.

**Trowbridge and Rumney - change to community areas and consequential change to electoral divisions**

**12.** The part of the community of Trowbridge shown hatched on Map I—

(a) is transferred to the community of Rumney; and

(b) forms part of the electoral division of Rumney.

*Carwyn Jones*

Prif Weinidog Cymru
28 Tachwedd 2016

*Carwyn Jones*

First Minister of Wales
28 November 2016

©ⓗHawlfraint y Goron 2016

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2016

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

**2016 Rhif 1155 (Cy. 277)**

**2016 No. 1155 (W. 277)**

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

Gorchymyn Dinas a Sir Caerdydd (Cymunedau) 2016

The City and County of Cardiff (Communities) Order 2016


£6.00

W2016112810 12/2016 19585

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2016/1155

ISBN 978-0-348-20043-0


# Map A of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map B of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map C of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map D of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map E of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map F of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map G of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government


# Map H of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016.
Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings.
Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government

# Map I of the City and County of Cardiff (Communities) Order 2016




This map is based upon the Ordnance Survey material with the permission of the Ordnance Survey on behalf of The Controller of Her Majesty's Stationery Office, © Crown copyright 2016. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Welsh Government. Licence Number: 100021874

077.16-17 Produced by Cartographics, Geography & Technology, Welsh Government